# Cyllideb yr Heddlu ar gyfer 2021/2022

## Eich Praesept Heddlu – Neges gan eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, rwy'n gyfrifol am osod y gyllideb ar gyfer eich gwasanaethau plismona. Mae hyn yn cynnwys gosod y praesept, sef yr elfen o'ch treth gyngor sy'n mynd i'r heddlu.

I lywio fy ystyriaethau, rwyf wedi ystyried nifer o wahanol ffactorau, megis gofyniad adnoddau'r Prif Gwnstabl, lefel y cronfeydd wrth gefn, ariannu gan y Llywodraeth Ganolog, adborth gan breswylwyr a pherchnogion busnes ardal Dyfed-Powys, ynghyd â gofynion buddsoddi ar gyfer seilwaith critigol.

O ystyried ystod y pwysau a'r gofynion ar y gwasanaethau a wynebir, rwyf wedi ystyried yn ofalus yr effeithiau a'r risgiau sylweddol sy'n bygwth ein cymunedau lleol. Bydd y lefel hon o gyllido yn galluogi'r Heddlu i barhau i ganolbwyntio ar gyflawni fy Nghynllun Heddlu a Throseddu a pharhau i ddiogelu'r cyhoedd yn ardal Dyfed-Powys.

Roedd 2020/21 yn flwyddyn ddigynsail oherwydd y pandemig COVID-19, a bu sawl her. Yr wyf yn ymwybodol y bydd yr effaith ar gymdeithas a'r economi, heb os, yn gadael etifeddiaeth hir a allai effeithio'n sylweddol ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol, gan gynnwys plismona a'n system cyfiawnder troseddol.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD...?**

**Mae 85% o wariant gros yn cael ei wario ar Gyflogau a Phensiynau Swyddogion a Staff yr Heddlu.**

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022, yr wyf wedi penderfynu codi'r praesept 5.76%, sydd yn gyson â hyblygrwydd praesept Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020. Mae hyn yn golygu £1.25 y mis yn fwy ar gyfer Eiddo Band D (£275.56), gan barhau i fod y lefel praesept heddlu isaf yng Nghymru.

*[llofnod]*


**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**
**12 Chwefror 2021**



### Bydd y gyllideb ar gyfer 2021/22 yn ein caniatáu i...

- **Recriwtio 42 swyddog heddlu ychwanegol, sy'n dwyn y cyfanswm i 1225;**
- **Parhau i ariannu gwasanaethau sy'n helpu i atal trosedd;**
- **Darparu gwasanaethau cymorth hollbwysig ar gyfer dioddefwyr trosedd a phobl sy'n agored i niwed;**
- **Buddsoddi mewn seilwaith Ystadau a Thechnoleg Gwybodaeth allweddol;**
- **Blaenoriaethu meysydd lle mae galw cynyddol, megis troseddau seiber a throseddau economaidd; a**
- **Gwella canolfan gyfathrebu'r heddlu er mwyn gwella cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd.**

**Drwy'r buddsoddiadau hyn, rwyf yn hyderus y bydd eich gwasanaeth heddlu'n cyflenwi gwasanaeth sy'n bodloni'r heriau a'r gofynion newidiol a osodir arnynt.**



| Cyllideb refeniw | diwygiedig 2020/21 £m | 2021/22 £m |
|---|---|---|
| Gwariant Gros | 129.024 | 136.909 |
| Incwm | (5.706) | (5.515) |
| Grantiau Eraill | (10.455) | (9.935) |
| Cyfraniad Net i / (o) Gronfeydd Wrth Gefn | 47 | (1.626) |
| **Gofyniad Cyllideb** | **112.910** | **119.834** |
| Grant yr Heddlu (Swyddfa Gartref) | (40.967) | (44.497) |
| Ardrethi Annomestig a Ail-ddosbarthwyd (Llywodraeth Cymru) | (9.514) | (9.212) |
| Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru) | (3.636) | (3.818) |
| Praesept Treth Gyngor | (58.793) | (62.307) |
| **Cyfanswm yr Arian** | **(112.910)** | **(119.834)** |
| **Asesiad o Wariant Safonol** | **37.049** | **37.492** |
| **Cyllideb Gwariant Cyfalaf** | **8.160** | **14.985** |
| **Amcangyfrif o gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol** | **10.362** | **7.105** |






**Beth fyddwch chi'n talu ar gyfer y flwyddyn 2021/22**

| Eich band treth | 2021/22 | Cynnydd ers llynedd |
|---|---|---|
| A | £183.71 | £10.00 |
| B | £214.32 | £11.66 |
| C | £244.94 | £13.33 |
| D | £275.56 | £15.00 |
| E | £336.80 | £18.34 |
| F | £398.03 | £21.67 |
| G | £459.27 | £25.00 |
| H | £551.12 | £30.00 |
| I | £642.97 | £35.00 |

**01267 226440**
opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF
www.dyfedpowys-pcc.org.uk
@DPOPCC